| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Corfforaethol** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **13 Tachwedd 2014** |
| **TEITL** | **Ymchwiliad Craffu Agenda Wledig** |
| **AELOD** | **Cyng. Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor** |

**1. Pwrpas**

1.1 Yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar y 27ain o Fawrth 2014, gofynnwyd i mi roi ystyriaeth i argymhellion yr Ymchwiliad Craffu Agenda Wledig.

1.2 Pwrpas yr adroddiad yma yw amlygu'r camau yr wyf wedi eu cymryd hyd yma i ymateb i argymhellion yr Ymchwiliad Craffu.

**2. Ymateb i'r Ymchwiliad Craffu**

2.1 Fel cam cyntaf, gofynnais i Baneli Cyflawni y Cyngor ystyried yr argymhellion sydd yn berthnasol i'w meysydd gwaith. Gofynais yn benodol iddynt ystyried y materion canlynol:

- Ydi blaenoriaethau, canlyniadau a phrosiectau'r Cynllun Strategol o fewn maes gwaith y Panel Cyflawni yn ymateb yn ddigonol i'r argymhellion? Os ydyn nhw, sut?
- Os nad ydyn nhw, pa newidiadau dylid eu gwneud i'r blaenoriaethau, canlyniadau a phrosiectau er mwyn ymateb i'r argymhellion?
- A oes gwasanaethau, rhaglenni neu gynlluniau eraill mewn lle o fewn maes gwaith y Panel Cyflawni sydd yn ymateb i'r argymhellion?

2.2 O ran yr argymhellion sydd yn berthnasol i waith y Cyngor, mae'n ymddangos fod angen gwneud rhywfaint o newidiadau i flaenoriaethau, canlyniadau a phrosiectau'r Cynllun Strategol er mwyn ymateb yn llawn i'r argymhellion. Fy mwriad yw cyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor Craffu ym mis Ionawr 2015 ar y newidiadau sydd angen eu gwneud i flaenoriaethau, canlyniadau a phrosiectau'r Cynllun Strategol er mwyn ymateb i'r argymhellion. Mae mewnbwn Aelodau'r Pwyllgor Craffu yn allweddol i'r gwaith hwnnw oherwydd yr oblygiadau i gynnwys y Cynllun Strategol ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

2.3 O ran yr argymhellion sydd yn berthnasol i bartneriaid y Cyngor, teimlaf y dylai Cadeirydd y Pwyllgor Craffu fynd a'r materion hynny ymhellach ym mha ffordd bynnag ar ran yr Ymchwiliad Craffu.

**3. Argymhelliad**

3.1 Gofynnaf i Aelodau'r Pwyllgor Craffu i nodi'r cynnydd hyd yma a derbyn adroddiad pellach gennyf ym mis Ionawr 2015 ar yr argymhellion sydd yn berthnasol i waith y Cyngor.